



Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Strategaeth Llythrennedd, Rhifedd a Llythrennedd Digidol. 2023-2024

Ysbrydoledig, Cynhwysol, Dylanwadol.
Inspirational, Inclusive, Influential.

Strategaeth Llythrennedd, Rhifedd a Llythrennedd Digidol CAVC

Cyflwyniad

Pwrpas y strategaeth hon yw darparu fframwaith clir a chynhwysfawr i siapia gweledigaeth Coleg Caerdydd a'r Fro i ddatblygu Sgiliau Hanfodol dros y cyfnod 2023 - 2024. Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau pob dysgwr ar draws y coleg. Er bod y Coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau sgiliau galwedigaethol, yn y cyd-destun hwn, mae'r term 'sgiliau' yn cyfeirio at lythrennedd, rhifedd, a llythrennedd digidol. Mae'r sgiliau hyn ar draws yr ystod o lefelau mewn addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned.

Bydd y strategaeth hon yn sicrhau bod y Coleg yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol mewn perthynas â datblygu sgiliau, gan fanteisio ar dechnolegau cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg i fod o gymorth gyda'r dysgu.

Cyd-destun ac Effaith COVID-19

Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu'r hinsawdd bresennol ym myd addysg yn dilyn y pandemig COVID-19. Mae arweinwyr a gwneuthurwyr polisi wrthi'n ymateb i ddiffyg sgiliau llythrennedd a rhifedd ganlyniad y gostyngiad mewn dysgu wyneb yn wyneb dros y cyfnodau clo rhwng 2020-2022. Nododd Estyn¹, (2021) fod colled addysgu wyneb yn wyneb mewn ysgolion a cholegau wedi achosi 'amhariad sylweddol i ddatblygiad dysgwyr ers Mawrth 2020'.

Yn benodol bydd y strategaeth yn sicrhau bod:

Dysgwyr CAVC yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ar gyfer dysgu, sgiliau ar gyfer twf, sgiliau ar gyfer anghenion cymunedol, sgiliau mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi a sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn unol â 'Cwricwlwm i Gymru newydd Llywodraeth Cymru'² a fydd yn cefnogi i ymgorffori sgiliau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol ar draws pob maes pwnc.

Dysgwyr yn dod yn 'bobl fedrus a chyflogadwy' ac yn datblygu i gyflogaeth gan wneud cyfraniad gwerthfawr i'r ardal a chymuned leol.

Dysgwyr yn symud ymlaen o fod angen cymorth ac arweiniad manwl i weithredu sgiliau yn annibynnol o fewn eu prif raglen astudio.

Dysgwyr yn datblygu'r defnydd o adnoddau digidol, technolegau a thechnegau i'w

¹ Yr arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

² Cwricwlwm newydd i Gymru

galluogi i ddod yn unigolion digidol gymwys sy'n bodloni lefel o sgiliau digidol priodol ar gyfer eu rhaglen dysgu ac amcanion unigol.

Gan staff sy'n dysgu Sgiliau fframwaith clir i'w dilyn, gyda chymorth rhaglen DPP pwrpasol (Gweler adrannau Cymwysterau Staff a DPP). Datblygiad staff yn sicrhau bod staff yn datblygu eu sgiliau yn unol ag amcanion Digidol 2030³ a'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu yng Nghymru.⁴

³ Digidol 2030 - Fframwaith strategol ar gyfer dysgu digidol ôl-16 yng Nghymru, 2019.

⁴ Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Llywodraeth Cymru, 2018.

Trosolwg o'r Strategaeth Sgiliau

Mae cydrannau gwahanol i'r strategaeth, a fydd yn sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni ar bob lefel. Isod, mae crynodeb o bob cydran, yr amcanion dysgu, a'r gefnogaeth ar gyfer yr addysgeg.

1. Cyn TGAU: Cymhwyster Sgiliau Hanfodol

Mae'r llwybr cyn TGAU yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau er mwyn ennill Cymhwyster Sgiliau Hanfodol mewn llythrennedd, rhifedd, neu lythrennedd digidol. Mae datblygiad sgiliau yn amrywio rhwng E1 a L3, a L2 yw'r targed i ddysgwyr sydd am ddatblygu i raglenni TGAU. Bydd dysgwyr yn dilyn y llwybr hwn os ydynt ar raglen astudio galwedigaethol llawn amser.

Mae'r Sgiliau Hanfodol cyfredol wedi eu hardystio gan Gymwysterau Cymru tan Awst 2027, ac Awst 2028 yw'r dyddiad ar gyfer ardystiad terfynol. Bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau dan arweiniad ymarferydd sgiliau cymwys, a fydd yn arolygu tasg dan reolaeth ac un ai prawf cadarnhau neu drafodaeth strwythuredig.

2. Strategaeth Dysgwyr Mwy Abl a Thalentog (M.A.Th)

Bydd dysgwyr MATH yn cael eu herio i ddatblygu eu sgiliau, gyda'r dewis i ennill cymwysterau L3, un ai mewn llythrennedd digidol, rhifedd neu lythrennedd. Bydd y cymhwyster a ddewisir yn dibynnu ar gymwysterau blaenorol a pha gymhwyster sydd fwyaf perthnasol i'w rhaglen alwedigaethol.

Bydd gweithrediad llwyddiannus y strategaeth hon yn cael ei chefnogi gan gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer datblygiad staff a fydd yn cynnwys:

- Cynefino manwl ac amserol mewn dysgu, addysgu ac asesu i bob aelod newydd o staff
- Cymhwyster addysgu - TAR a chymwysterau L3 Sgiliau Hanfodol
- Arweiniad gan 'Arweinydd Sgiliau' ymroddedig
- Gweithdai datblygu sgiliau, gweminarau a gweithgareddau dysgu cyfunol i staff
- Cyfleoedd ar gyfer myfyrio proffesiynol, dysgu gyda chyfoedion a rhannu arfer effeithiol
- Presenoldeb mewn digwyddiadau rhwydwaith

3. Ail-sefyll TGAU

Bydd y llwybr hwn yn cael ei gynnig i ddysgwyr sydd â gradd D mewn Mathemateg a/neu Saesneg neu sydd wedi ennill cymhwyster L2 Sgiliau Hanfodol. Bydd dysgwyr yn mynychu un dosbarth ail-sefyll TGAU bob blwyddyn academiaidd. Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd dysgwyr gradd E yn cael cynnig ail-sefyll TGAU. Bydd hyn yn cael ei benderfynu fesul achos. Yn ychwanegol, bydd dysgwyr gyda gradd E yn

cael cynnig ail-sefyll TAGU unwaith y byddant wedi cwblhau Sgiliau Hanfodol Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif lefel 2.

Yn ystod tymor cyntaf y flwyddyn academaidd, bydd pob dysgwr a ddymuna ymrestru ar y llwybr ail-sefyll TAGU yn astudio ar gyfer, ac yn cyflawni Sgil hanfodol ar lefel 2, mewn un ai Cyfathrebu neu Cymhwyso Rhif. Bydd hyn yn galluogi i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau llythrennedd neu rifedd, cyn dechrau dysgu ar gyfer yr ail-sefyll. Mae'r testunau a'u hastudiwyd o fewn y Sgiliau Hanfodol lefel 2 hefyd yn bresennol yn y maes llafur TAGU presennol, felly bydd gan ddysgwyr gyfle i wella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd, ennill cymhwyster lefel 2, dysgu elfennau o gwrs TAGU, a phenderfynu a yw TAGU yn llwybr addas ar eu cyfer.

4. Ymgorffori llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol o fewn meysydd pwnc.

Nid cyfrifoldeb darlithwyr Saesneg, Mathemateg a TG yn unig yw datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol y dysgwyr. Fel arweinwyr dysgu, mae disgwyl i'r holl staff addysgu ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol dysgwyr drwy addysgeg arloesol. Mae CAVC wedi darparu technolegau i gefnogi, gan gynnwys; meddalwedd Read&Write⁵ a Microsoft Immersive Reader⁶ er mwyn galluogi athrawon i gefnogi datblygiad sgiliau ar lefel yr unigolyn. Mae CAVC hefyd wedi datblygu cynllun marcio llythrennedd a rhifedd er defnydd athrawon wrth iddynt gywiro gwaith dysgwyr. Dylai athrawon ddefnyddio ystod o fethodoleg er mwyn sicrhau bod y dysgwyr oll yn cael eu herio i gyflawni safonau uchel.

Model Cyflwyno, gan gynnwys cymorth sgiliau penodol

Sefydlu Graddfa Anghenion Dysgwr

Cyfrifir y raddfa anghenion drwy sefydlu pa nifer o ddysgwyr sydd â gallu lefel 1 neu is mewn sgiliau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Ymgymmerir yr asesiad dan oruchwyliaeth drwy ddefnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST). Caiff canlyniadau'r Asesiad Cychwynnol eu casglu gan y Goruchwyliwr Sgiliau a'u rhannu gyda thiwtoriaid cwrs a Phenaethiaid Adran.

Gallwn gymharu graddfa anghenion y dysgwyr dros y tair blynedd diwethaf:

Blwyddyn Academaidd	Llythrennedd	Rhifedd	Llythrennedd Digidol
2020/21	82% islaw L2	70% islaw L2	73% islaw L2
2021/22	80% islaw L2	79% islaw L2	71% islaw L2
2022/23	84% islaw L2	83% islaw L2	76% islaw L2

⁵ Mae meddalwedd Read & Write wedi ei osod ar liniaduron a chyfrifiaduron y coleg er mwyn cefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd ein dysgwyr

⁶ Mae Microsoft Immersive Reader ar gael i'w ddefnyddio ar Word, OneNote, Outlook, Teams, Forms a phorwr Edge. Mae'n adnodd digidol sydd â thechnegau sydd wedi eu profi i wella sgiliau darllen ac ysgrifennu mewn unigolion.

Mae hi'n glir ar draws y 3 sgil hanfodol bod gallu'r dysgwyr pan maent yn cyrraedd y coleg wedi lleihau dros y 3 blynedd diwethaf; mae hyn yn benodol amlwg ar gyfer sgiliau rhifedd. Felly, mae hi'n flaenoriaeth i'r coleg ymgymryd â dull holistaidd tuag at gefnogi dysgwyr. Mae'r rhan nesaf yn amlinellu'r cyfrifoldebau penodol ar gyfer staff ar draws y coleg o ran datblygu'r sgiliau hyn mewn dysgwyr.

Bydd Tiwtoriaid Cwrs/Hyfforddwyr Cynnydd yn:

- Sgrinio dysgwyr i sicrhau bod dysgwyr yn dilyn cwrs sydd fwyaf priodol i lefel eu sgiliau.
- Sicrhau bod pob dysgwr yn cwblhau asesiad diagnostig llawn erbyn diwedd y cyfnod cynefino. (O fewn 4 wythnos i gofrestru fel arfer)
- Defnyddio canlyniadau'r asesiad WEST i roi adborth i ddysgwyr a chytuno ar dargedau dysgu unigol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Bydd y targedau yn cynnwys nodau tymor byr a thymor hir. Cynhwysir y rhain ar eLLP y llwyfan ar-lein perthnasol, ac felly bydd yn hygyrch i bob aelod o staff sy'n ymwneud â darparu rhaglen y dysgwr.
- Adolygu targedau'r dysgwyr yn rheolaidd a phriodol
- Parhau i ddefnyddio canlyniadau WEST i gynllunio ar gyfer dysgu gwahaniaethol.
- Defnyddio WEST ac adnoddau priodol eraill i adeiladu sgiliau'r dysgwyr a'u symud ymlaen drwy bob lefel.

Darlithwyr/Aseswyr

Bydd staff* profiadol a chymwys yn datblygu sgiliau mae dysgwyr eu hangen i gyrraedd y targedau cytunedig yn eu cynllun dysgu unigol. Byddant yn gyfrifol am:

- Ddatblygu cynlluniau gwaith a chynlluniau gwers sy'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau ymarferol yng nghyd-destun eu rhaglen astudio alwedigaethol.
- Ddefnyddio WEST i lywio'r addysgu a dysgu.
- Ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gael mynediad at adnoddau dysgu penodol a chyfredol, gan ddilyn model darparu dysgu cyfunol.
- Strwythuro gweithgareddau fel bod dysgwyr yn datblygu annibyniaeth a chymryd cyfrifoldeb am eu dysg eu hunain
- Osod targedau sgiliau heriol a phenodol i ddysgwyr. Adolygu targedau yn rheolaidd â dysgwyr.
- Ymgorffori sgiliau yn y brif raglen ddysgu
- Gyfeirio dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol at yr hyfforddwyr sgiliau a dysgu.

Hyfforddwyr Sgiliau a Dysgu/Canolfannau Sgiliau

Byddant yn gyfrifol am:

- Ddefnyddio WEST i asesu dysgwyr a datblygu sgiliau dysgwyr; a'u symud ymlaen drwy'r lefelau
- Ddarparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr a gyfeiriwyd drwy un ai gymorth 1 i 1, cefnogaeth o fewn y dosbarth neu yn un o'r Canolfannau Sgiliau
- Strwythuro gweithgareddau i hyrwyddo annibyniaeth dysgwr a dysgu cydweithredol.
- Osod targedau sgiliau heriol a phenodol i ddysgwyr.
- Ddarparu hyfforddiant i diwtoriaid cyrsiau ar sut i wneud defnydd effeithiol o WEST
- Ddarparu adnoddau diddorol a chyfredol i ddysgwyr wrth ddatblygu eu sgiliau
- Gofnodi cymorth a chynnydd dysgwyr yn eu eLP a'r llwyfan perthnasol.

Arweinwyr Sgiliau

- Cefnogi darlithwyr/aseswyr i ddarparu'r sgiliau
- Cyfrannu at ddatblygu adnoddau cyfredol er mwyn darparu'r sgiliau
- Darparu hyfforddiant i ddarlithwyr/aseswyr i ddarparu'r sgiliau, gan gynnwys digwyddiadau safoni
- Sicrhau ansawdd tasgau dan reolaeth a phrofion cadarnhau ar gyfer cymwysterau sgiliau hanfodol
- Sicrhau ansawdd cwblhau portffolios dysgwyr
- Orlhain cynnydd dysgwyr
- Darparu data i Bennaeth Llwyddiant Dysgwyr
- Ymgysylltu â'r EQA o'r Sefydliad Dyfarnu perthnasol

Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid Adran

Cyfeiria hyn at yr holl reolwyr sydd â chyfrifoldeb am gyflwyno cwricwlwm.

- Adnabod graddfa'r angen a dyrannu adnoddau priodol i roi cymorth i'r dysgwyr sydd â'r anghenion mwyaf
- Sicrhau bod pob darlithydd/aseswr a hyfforddwyr sgiliau a dysgu yn gymwys
- Sicrhau bod pob darlithydd/aseswr a hyfforddwyr sgiliau a dysgu yn cymryd rhan reolaidd mewn digwyddiadau DPP a safoni
- Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau newydd, gan gynnwys blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru ac Estyn
- Cynllunio cwricwlwm heriol a chadarn addas i ddarparu'r sgiliau
- Adnabod meysydd arferion da i'w gweithredu yn CCAF er mwyn darparu'r sgiliau
- Sicrhau ansawdd dysgu ac addysgu'r sgiliau drwy arsylliadau gwers a theithiau dysgu
- Ymateb i adborth dysgwyr a gweithredu newid a gwelliannau; lle bo'n briodol

- Olrhain effaith y sgiliau ar lwyddiant a chynnydd dysgwyr

Cymwysterau Staff

Yn unol â blaenoriaethau CCAF i wella ansawdd a chyflawni dysgu rhagorol, mae'r tabl canlynol yn amlinellu isafswm y cymwysterau sy'n angenrheidiol i **athrawon arbenigol sgiliau eu meddu**.

Hanfodol ar gyfer staff newydd:

Llythrennedd	Rhifedd	Llythrennedd Digidol	ESOL
TAR neu Dystysgrif Addysg	TAR neu Dystysgrif Addysg	TAR neu Dystysgrif Addysg	TAR neu Dystysgrif Addysg
Hefyd, un o'r arbenigeddau canlynol			
Gradd mewn pwnc sy'n gysylltiedig â Saesneg neu'r Dyniaethau.	Gradd mewn pwnc sy'n gysylltiedig â Mathemateg neu STEM.	Gradd mewn pwnc sy'n gysylltiedig â TGCh.	Gradd mewn leithyddiaeth

Ar gyfer y staff presennol sydd ddim yn meddu ar y cymwysterau a argymhellir yn y tabl uchod, bydd cyfle i gymryd rhan mewn DPP i ennill y cymwysterau pynciol angenrheidiol.

Yn unol â blaenoriaethau CCAF i wella ansawdd a chyflawni dysgu rhagorol, mae'r tabl canlynol yn amlinellu isafswm y cymwysterau sy'n angenrheidiol i athrawon ac aseswyr sy'n datblygu sgiliau dysgwyr eu meddu, **fel rhan o'u prif raglen alwedigaethol**.

Llythrennedd	Rhifedd	Llythrennedd Digidol	ESOL
TAR neu Dystysgrif Addysg/cymhwyster Aseswr (D32, D33 or TAQA L3)*	TAR neu Dystysgrif Addysg/cymhwyster Aseswr (D32, D33 or TAQA L3)*	TAR neu Dystysgrif Addysg/cymhwyster Aseswr (D32, D33 or TAQA L3)*	TAR neu Dystysgrif Addysg/cymhwyster Aseswr (D32, D33 or TAQA L3)*
Hefyd, un o'r arbenigeddau canlynol			
Sgil Hanfodol ar y lefel uwch na'r lefel a addysgir.	Sgil Hanfodol ar y lefel uwch na'r lefel a addysgir.	Sgil Hanfodol ar y lefel uwch na'r lefel a addysgir.	TGAU mewn mathemateg a Saesneg Gradd B neu uwch

*Dylai athrawon feddu ar radd TAR neu Dystysgrif Addysg, a dylai Aseswyr feddu ar gymwysterau aseswr.

Digwyddiadau Datblygiad proffesiynol parhaus

- Dylai'r holl staff gymryd rhan reolaidd mewn DPP perthnasol i'r sgil/iau maent yn ei addysgu
- Dylai staff gymryd cyfrifoldeb am fynychu digwyddiadau hyfforddi mewnol ac allanol er mwyn sicrhau bod eu sgiliau'n gyfredol
- Dylai staff sicrhau eu bod yn cofnodi eu presenoldeb yn y digwyddiadau DPP gyda'r gweinyddwr Datblygu Staff, er mwyn i'w cofnod DPP fod yn gywir a chyfredol
- Dylai staff arbenigol sgiliau fynychu **lleiafswm o 2 ddigwyddiad safoni** bob blwyddyn academiaidd

Lleoliad a Mynediad at y Strategaeth

- Mae hon ar gael ar y wefan a phorth y staff, ac efallai na fydd yn gyfredol os caiff ei hargraffu.

Dyddiad Cymeradwyo: Medi 2023

Cymeradwywyd gan: CQSA

Dyddiad Adolygu: 1 Medi 2024

Rheolwr sy'n Gyfrifol: Uwch Bennaeth Adran
Astudiaethau Academaidd

Arweinydd Gweithredol: Pennaeth Cynorthwyol,
Perfformiad Academaidd, Chweched Dosbarth a TEL

Hygyrch i Fyfyrrwyr: Ydy
